Amod D9: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Amodau a Gofynion

Amod D9 – Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg

D9.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod Cymhwyster Cymeradwy ar gael yn y Gymraeg.

D9.2 Pan fydd Cymhwyster Dynodedig ar gael i Ddysgwyr cyn-16, ac yn unol â'n Polisi Dynodi, rhaid i gymwysterau o'r fath fod ar gael yn Gymraeg, erbyn:

(a) 1 Medi 2027, neu

(b) unrhyw ddyddiad o'r fath a bennir gan Cymwysterau Cymru

pa un bynnag sydd gynharaf.

Cyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg

D9.3 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi, cynnal a chydymffurfio â datganiad polisi lle nodir a yw'r corff dyfarnu yn darparu cymwysterau, neu'n bwriadu darparu cymwysterau, yn y Gymraeg, ai peidio.

D9.4 Mewn unrhyw amgylchiad lle bydd y datganiad polisi sydd ar waith yn nodi y darperir cymhwyster, neu y bwriedir darparu cymhwyster, yn y Gymraeg, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y datganiad polisi yn ei alluogi i gydymffurfio â'i Amodau Cydnabod.

Hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad atynt

D9.5 Pan fydd corff dyfarnu yn darparu, neu'n bwriadu darparu, cymhwyster yn y Gymraeg, rhaid iddo hyrwyddo argaeledd y cymwysterau hynny a hwyluso mynediad atynt.

D9.6 At ddibenion Amod D9.5, mae 'hyrwyddo' yn golygu unrhyw ymdrechion a wneir gan gorff dyfarnu i godi ymwybyddiaeth o argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

D9.7 At ddibenion Amod D9.5, mae 'hwyluso' yn golygu unrhyw gamau a gymerir gan gorff dyfarnu i wella mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg.

D9.8 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer –

(a) goruchwylio'r ffordd y mae'n cydymffurfio ag Amod D9;

(b) cyhoeddi ei ddatganiad polisi;

(c) hyrwyddo argaeledd cymwysterau Cymraeg a hwyluso mynediad atynt, a

(d) cyhoeddi dogfen ar ei wefan lle cofnodir y trefniadau hynny.

D9.9 Wrth ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ac wrth hyrwyddo argaeledd cymwysterau Cymraeg a hwyluso mynediad atynt, yn unol ag Amodau D9.1-D9.9, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn –

(a) cydymffurfio ag unrhyw ofynion, ac yn ystyried unrhyw ganllawiau y gall Cymwysterau Cymru eu cyhoeddi a'u diwygio o dro i dro,

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'u cyfathrebu'n ysgrifenedig.

Gofynion yn ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg

Mae Amod D9.9 yn caniatáu inni bennu gofynion yn ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg. Isod, nodir ein gofynion at ddibenion Amod D9.9.

Gofynion yn ymwneud ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg (Amodau D9.1-2)

(a) Wrth gyflwyno'i Gymwysterau Rheoleiddiedig i Cymwysterau yng Nghymru (QiW), rhaid i gorff dyfarnu gynnwys gwybodaeth glir a manwl gywir ynglŷn â'r iaith/ieithoedd y darperir y cymhwyster ynddi/ynddynt (Cymraeg yn unig / Saesneg yn unig / Cymraeg a Saesneg).

(b) Pan nodir bod Cymhwyster Rheoleiddiedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i gorff dyfarnu gadarnhau a yw'r cymhwyster:

(i) Ar gael yn llawn yn y Gymraeg, neu
(ii) Ar gael yn rhannol yn y Gymraeg.

(c) Pan fydd cymhwyster ar gael yn llawn yn y Gymraeg, rhaid i'r Deunyddiau Ategol canlynol fod ar gael yn y Gymraeg:

(i) y fanyleb ar gyfer y cymhwyster, gan gynnwys unrhyw derminoleg berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster
(ii) yr holl ddeunyddiau asesu i'w cwblhau gan y Dysgwr
(iii) deunyddiau asesu enghreifftiol, lle bo'n berthnasol
(iv) unrhyw ddeunyddiau eraill a wneir yn orfodol gan y corff dyfarnu i'r Dysgwr gael y cyfle i ennill y cymhwyster

(d) Pan fydd cymhwyster ar gael yn rhannol yn y Gymraeg, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y Deunyddiau Ategol canlynol ar gael ar gyfer pob uned a/neu Gydran sydd ar gael yn y Gymraeg:

(i) yr holl ddeunyddiau asesu i'w cwblhau gan y Dysgwr
(ii) deunyddiau asesu enghreifftiol, lle bo'n berthnasol
(iii) unrhyw ddeunyddiau eraill a wneir yn orfodol gan y corff dyfarnu i'r Dysgwr gael y cyfle i ennill yr uned a/neu'r Gydran.

(e) Ni ddylai Dysgwyr a fydd yn ymgymryd â chymhwyster yn y Gymraeg wynebu unrhyw anfantais o gymharu â Dysgwyr a fydd yn cwblhau'r cymhwyster cyfwerth yn y Saesneg.

Gofynion yn ymwneud â chyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg (Amod D9.3-4)

(a) Dylai corff dyfarnu gyhoeddi ei ddatganiad polisi yn unol â'r rheol ddehongli a bennir yn Amod J1.7.

(b) Rhaid i ddatganiad polisi corff dyfarnu fod yn agored, yn dryloyw, yn fanwl gywir ac yn glir i Ddefnyddwyr cymwysterau.

(c) Fel rhan o'i drefniadau gyda Chanolfannau, yn unol ag Amod C2, rhaid i gorff dyfarnu rannu ei bolisi, neu ei bolisïau, yn uniongyrchol gyda'r Canolfannau.

(d) Pan fydd corff dyfarnu yn darparu cymwysterau i Ganolfannau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, dylai'r corff dyfarnu gyhoeddi ei ddatganiad polisi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

(e) Rhaid i ddatganiad polisi cyhoeddedig y corff dyfarnu esbonio'r rhesymau pam y penderfynodd ddarparu neu beidio â darparu cymhwyster yn y Gymraeg.

(f) Rhaid i ddatganiad polisi'r corff dyfarnu bennu pa agweddau ar y cymhwyster, yn cynnwys y Deunyddiau Ategol, y bydd y corff dyfarnu yn eu darparu yn y Gymraeg.

(g) Dylai corff dyfarnu adolygu ei ddatganiad polisi yn unol â'r cylch adolygu polisïau y cytunodd arno'n fewnol.

Gofynion yn ymwneud â hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad atynt (Amodau D9.5-7)

(a) Yn achos unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo a gynhyrchir gan gorff dyfarnu, pa un a fydd y deunyddiau hynny ar ffurf copi caled neu ar ffurf ddigidol, sef deunyddiau sy'n cyfeirio at fersiwn Saesneg y cymhwyster, rhaid iddo sicrhau bod y deunyddiau hynny yn nodi bod y cymhwyster ar gael yn y Gymraeg hefyd.

(b) Rhaid i gorff dyfarnu fynd i'r afael â gweithgareddau blynyddol mewn perthynas â phob Canolfan, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell, yn cynnwys:

(i) codi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau a ddarperir yn y Gymraeg, neu y bwriedir eu darparu yn y Gymraeg

(ii) pennu pa adnoddau a deunyddiau ategol cyfrwng Cymraeg gogyfer y cymwysterau hynny y byddai disgwyl i'r corff dyfarnu eu darparu
(iii) asesu'r galw tebygol am gymwysterau yn y Gymraeg
(iv) pennu cyfleoedd i wella mynediad at ei gymwysterau yn y Gymraeg,
(v) pan fo'n berthnasol ac yn briodol, pennu pa gymwysterau penodol y dylid rhoi blaenoriaeth i'w hyrwyddo, neu pa gynulleidfaoedd y dylid eu targedu

Diffiniadau

Deunyddiau Ategol Mae deunyddiau ategol yn cynnwys deunyddiau asesu ym mhob fformat, manyleb y cymhwyster, deunyddiau asesu enghreifftiol, ac unrhyw ddeunyddiau eraill y bydd y corff dyfarnu yn eu gwneud yn orfodol er mwyn i'r Dysgwyr gael cyfle i ennill y cymhwyster.